Dros y ffin mae Llywodraeth Llundain wrthi ers blynyddoedd yn dweud wrth denantiaid Cyngor mor braf a diogel fyddan nhw gyda'r 'Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig' 'ma. Rhyw fudiadau bach lleol roedd y rhain i fod. Ond doedden nhw byth yn aros yn lleol am yn hir iawn. Roedd cwmnïau mwy byth yn eu llyncu nhw – ac mae pobl wedi cael llond bola. Dyna pam mae'r Llywodraeth wedi dyfeisio'r enw newydd 'ma, 'Cydfuddiannol Cymunedol'. Ond enw arall ar breifateiddio yw hyn – a fydd dim tro'n ôl wedyn.

Er hyn i gyd y MAE'r arian ar gael i drwsio'n cartrefi ni. Rydyn ni, tenantiaid cyngor Cymru, yn talu £450,000,000 o rent bob blwyddyn. Ond mae'r Llywodraeth yn dwyn £100,000,000 o hwnna – bron chwarter! Ac maen nhw'n dwyn £1,500,000,000 o denantiaid cyngor Lloegr ar ben hynny.

A dyma nhw'n ddigon cofni i gynnig 'rhoi' peth o'r arian yn ôl i ni – ond i ni dderbyn preifateiddio'n cartrefi ni. Maen nhw'n fodlon anghofio dyledion cyngorau am y tai – ond i ni dderbyn 'trosglwyddo' ein cartrefi (mwy am 'trosglwyddo' ar dudalen 3). Mae hyn yn warthus.

Rydyn ni'r tenantiaid eisiau gwella'n tai a'n hystadau. Rydyn ni'n mynnu i'r Llywodraeth helpu'r cyngorau i wneud hyn.

Cadwn ein cartrefi ni – pleidleiswch NA!

8 RHESWM DA DROS WRTHOD



Troi pobl o'u cartrefi

Fyddwn ni ddim yn denantiaid diogel rhagor. Mae'n llawer hawsach i gwmnïau Cydfuddiannol Cymunedol daflu pobl allan o'u cartrefi. 'Tenantiaid sicr' fyddwn ni – ac mae llawer o'r rheiny'n colli'u tai.



Codi rhenti

Maen nhw'n addo cadw rhenti lawr. Ond mae profiad pobl Lloegr yn dangos fod hyn yn gelwydd. O'r 20 ardal gyda'r codiadau uchaf rhwng 1997 a 2004, roedd 15 wedi 'trosglwyddo' tai.



Dim llais democrataidd

Mae tenantiaid cyngor yn cael dewis eu landlord unwaith bob 4 mlynedd, amser etholiad. Ond fydd Bwrdd y Cydfuddiannol Cymunedol ddim yn atebol i chi. Banciau a chwmnïau mawr eraill fydd â'r llais cryfa.



Preifateiddio

Mae'r cwmnïau newydd yma'n gorfod talu mwy na chynghorau er mwyn benthycu arian. Bydd mwy o arian yn mynd i bocedi'r banciau, a bydd llai ar ôl er mwyn trwsio'r tai.



Costau mawr

Mae 'trosglwyddo' tai un ardal yn unig yn costio miliynau. Fe ddylai'r arian 'na fynd ar drwsio a gwella tai.



Gwasanaethau gwaeth

Bydd y gweithwyr sy'n gofalu am y tai yn llawer gwaeth eu byd. Bydd y rheolwyr uchel yn ennill ffortiwn.



Mwy'n byw ar y stryd

Yn ôl mudiad Shelter (sy'n helpu pobl heb gartrefi,) mae'r landlordiaid newydd yn llawer llai parod i helpu pobl ddigartre. Mae 43% o gynghorau wedi cael trafferth gyda nhw.



Dim mynd yn ôl at y Cyngor

Os caiff y tai'u 'trosglwyddo', fydd dim mynd yn ôl at y Cyngor os aiff y cwmni newydd i drafferth. Mae'r cwmnïau Cydfuddiannol Cymunedol wedi gwneud cant a mil o addewidion gwag. Beth sy'n digwydd os aiff yr hwch drwy'r siop?

Raid clywed y ddwy ochr

Mae llawer o denantiaid heb gael cyfle i glywed y ddadl yn erbyn 'trosglwyddo' a phreifateiddio tai cyngor. Dydy hyn DDIM yn ddemocrataidd. Bydd y rheolwyr uchel sy'n hybu trosglwyddo yn cael cyflogau uwch – a mwy. Mynnwch glywed am yr ochr arall i'r geiniog!

Aelodau o sawl plaid yn cefnogi tai cyngor: gwelwch tu fewn

Does neb wedi **GWNEUD DIMAI O ELW** o gyhoeddi'r papur hwn i chi. Does dim ymgynghorwyr drud na rheolwyr wedi cymryd rhan.

Holl wledydd Prydain yn ymgyrchu >>>



Mae'r Undeb Trafnidiaeth yng Nghymru yn galw am fuddsoddi rhagor o arian mewn tai cyngor. Rydym yn gwrthwynebu ymgyrch preifateiddio'r Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth ganolog yn gallu rhoi digon o arian i mewn i dai cyngor. Maen nhw'n defnyddio bwllian a blacmel i gael eu ffordd. Mae hawl gyda phob tenant i gael cartre teilwng, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Rhaid cael rhywle i fyw am bris rhesymol – a dewi's pwy fydd y landlord. Mae'r Undeb Trafnidiaeth yn cefnogi ymgyrch tenantiaid Cymru yn erbyn preifateiddio gant y cant. Galwn am fuddsoddi mewn tai cyngor nawr." **Andy Richards, Ysgrifennydd Cymru, Yr Undeb Trafnidiaeth**

Holl wledydd Prydain yn ymgyrchu

MAE POBL O SAWL PLAID yn holl wledydd Prydain yn gadarn o blaid cadw tai cyngor.

Mae llawer o bobl yn gweithio mewn tai cyngor, yn byw ynddyn nhw, neu angen rhagor ohonyn nhw. Dyna pam mae'u hundebau ni'n eu cefnogi – gan gynnwys Amicus, CWU, GMB, PCS, RMT, TGWU, UCATT, ac UNSAIN. O Swyddfa'r Dirprwy Prif Weinidog mae'r cynllun 'trosglwyddo' wedi

dod. Mae'r pwyllgor dethol o Aelodau Seneddol sy'n cadw llygad ar y Swyddfa wedi beirniadu'r polisi'n llym iawn. Mae'r pwyllgor yn San Steffan sy'n cadw llygad ar arian cyhoeddus yn dweud bod trosglwyddo'n llawer mwy drud. Mae grŵp o Aelodau Seneddol yn ymgyrchu dros dai cyngor. Roedd rhai ohonyn nhw, fel Frank Dobson, Clare Short, Michael Meacher, a Kate Hoey, yn Weinidogion. Mae'n hymgyrch ni'n gryf ac yn

tyfu. Mae'n cynnwys tenantiaid, Cyngorwyr, undebau, ac Aelodau Seneddol. Mae'r Llywodraeth ar eu pennau'u hun yn y mater hwn. ● Mae Cynhadledd y Blaid Lafur wedi condemnio polisi'r Llywodraeth am ddwy flynedd ar y tro nawr. Y flwyddyn ddiwetha, galwodd y bobl yno ar y Llywodraeth i roi cynnig ar polisi arall. Mae angen 'buddsoddi uniongyrchol' – rhoi arian yn syth mewn i dai cyngor – heb ddim oedi. ● Ym mis Chwefror 2006,

creodd y Blaid Lafur grŵp i edrych yn fanwl ar y cynnig yma o'r Gynhadledd. ● Cyhoeddodd Ruth Kelly bapur trafod ym mis Mehefin ar sut i gadw tai cyngor safonol i bobl. (Hi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am dai.) Dechreuodd hi gynllun gyda chwe Chyngor i weld pa ffyrdd sydd o gadw tai cyngor safonol i bobl at y dyfodol. Mae'r Llywodraeth yn dechrau ildio, felly. Does wiiw iddyn nhw honni fod dim newid yn bosib ar y

polisi. Ond rhaid i ni ddal ati i bwyso arnyd nhw, nes iddyn nhw ildio'n llwyr. Mae'r Gweinidogion yn bwriadu bwllian tenantiaid cyngor Cymru i dderbyn trosglwyddo tai cyngor. Rhaid i ni sefyll yn gadarn gyda phawb sy wedi gwrthod preifateiddio tai cyngor. Mynnw'n i'r Llywodraeth wrando ar ein llais. Mynnw'n gael buddsoddi uniongyrchol – rhoi arian yn syth i mewn i dai cyngor – heb ddim pwysau na blacmél.

7 rheswm da dros wrthod

Enw arall ar breidateiddio yw 'trosglwyddo'. Dim ond cwmni preifat yw 'Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig' fel y cwmnïau Cydfuddiannol Cymunedol. Benthycia arian gan fanciau fyddan nhw, a gorfod gwneud elw. Fyddwn ni ddim yn denantiaid diogel ragor, a fydd y gwasanaeth tai ddim yn ddemocratiaidd. Bydd mwy o bobl yn colli'u cartrefi – a bydd y rheolwyr yn codi'u pae'u hun.

Mae risgiau mawr mewn trosglwyddo. Maen nhw'n addo cadw'r rhent lawr a gwella'r tai – ond maen nhw wedi torri'r addewidion yma droeon. A beth os aiff y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig newydd i drwbwl ariannol? Mae rhai wedi cael eu cymryd drosodd gan gwmnïau eraill. Mae eraill yn troi'u hun yn gwmnïau mawr masnachol, gydag elw i'r cwmni'n nod a dim lle i'r tenant. Ac os aiff yr hwch drwy'r siop, fydd dim mynd yn ôl at y Cyngor.

Diwedd ar Denantiaeth Ddiogel – troi pobl o'u cartrefi
'Tenantiaid sicr' fyddwn ni o hyn allan. Bydd hi'n llawer hawsach i'n taflu ni allan. Ar hyn o bryd, rydyn ni fel 'tenantiaid diogel' yn cael llawer o hawliau gan y gyfraith. Dydy addewidion Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn werth dim o'u cymharu â hyn. Colli hawliau wnawn ni. Mae modd taflu 'tenant sicr' allan o dan reol 'Sail 8' – bod mewn dyled fawr am rent – sydd ddim yn gweithio'n erbyn tenantiaid diogel. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi addo peidio â defnyddio Sail 8 – ond dyna'u rheswm am daflu pobl allan unwaith allan o chwech. Dydy'u haddewidion yn werth dim.

Dim llais democratiaid
Fydd y landlordiaid ddim yn atebol i chi a fi ragor. Yn anaml iawn bydd cymdeithasau'r tenantiaid ag unrhyw bwerau gwbl. Yn ôl y gyfraith, does dim hawl gyda'r tenantiaid ar Fwrdd y cwmni newydd i siarad ar ran y tenantiaid eraill. Dydy'r drefn newydd ddim yn rhoi pŵer i'r tenantiaid – rhagor am hyn ar y dudalen gefn.

Costau mawr
Bydd gwella un tŷ ar ôl y preifatei-

ddio'n costio £1,300 yn fwy nac os bydd y Cyngor yn gwneud y gwaith. Dyna farn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Pam fod preidateiddio mor ddrud? Mae cyngorau'n cael benthycia'r arian yn llawer rhatach. Peth arall, mae'r rheolwyr wastad yn codi'u pae'u hun, ac yn gwario ffortiwn ar swyddfeydd moethus ac ar hysbysebu a brolio'u hun. Chi a fi sy'n talu am hyn li gyd.

Gweithwyr yn dioddef
Bydd gweithwyr y gwasanaeth tai'n waeth eu byd bob tro. I ddechrau, fyddan nhw ddim yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ragor. Mae cynllun pensiwn y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar ganol newidiadau mawr. Mae'n debyg y bydd y pensiynau'n is yn y dyfodol.

Dydy'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddim yn hoffi undebau. Mae sawl un yn y De wedi gwrthod cydnabod UNSAIN. Maen nhw'n hoffi contractio gwasanaethau allan i gwmnïau preifat eraill. Ychydig sy'n cyflogi'u gweithwyr cynnal a chadw'u hun. Gyda'r gweithwyr yn dioddef gwaeth pae ac amodau, bydd y gwasanaeth i'r tenantiaid yn mynd yn waeth.

Arian mawr i'r rheolwyr
Does dim ots beth mae'r landlordiaid newydd yn addo – bydd y gweithwyr tai'n dioddef. Fyddan nhw ddim yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ragor. Mae cynllun pensiwn y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar ganol newidiadau mawr. Mae'n debyg y bydd y pensiynau'n is yn y dyfodol.

Busnesa mawr yn ein llyncu ni
Maen nhw'n addo 'buddsoddi' – rhoi arian mewn i dai cyngor. Ond bydd raid i'r landlordiaid newydd fenthyca'r arian gan y banciau. Bydd y banciau'n mynnu gwasgu'u profid o'n cartrefi ni. Nid ni'r tenantiaid fydd yn rheoli'r sioe. Peth newydd yw trosglwyddo tai yma yng Nghymru. Yn Lloegr, ar y llaw arall, maen nhw wrthi yn trosglwyddo ers 18 mlynedd. Mae llawer o'r landlordiaid newydd yn mynd i drwbwl ariannol yn fuan.

Mae 1 o bob 5 yn cael eu cymryd drosodd gan y Gorfforaeth Dai. Mae'r landlordiaid mawr yn llyncu'r rhai bach, a'r rheiny'n mynd i fwy a mwy o ddyled gyda'r banciau.

Mae cymdeithasau tai Cymru wastad wedi bod yn fach ac yn eitha lleol. Ond mae'r duedd i lyncu'r cymdeithasau llai yn dechrau cydio fan hyn hefyd, fel yn Lloegr. Aeth Cymdeithas Tai'r Drenewydd i drwbwl ariannol yn 2002. Hi oedd y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig cyntaf yng Nghymru i gael y swyddogion Llywodraeth yn mynd drwy'u llyfrau fel hyn. Cafodd ei llyncu yn y diwedd gan Gymdeithas Dai Newydd. Adran Tai Llywodraeth y Cynulliad benderfynodd hyn. Doedd dim llais gan y tenantiaid.

Mwy yn byw ar y stryd
Os yw pobl yn ddigartre, mae'r gyfraith yn rhoi dyletswydd ar y cyngorau i'w helpu nhw. Does dim dyletswydd felly ar y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Yn ôl mudiad Shelter, bydd pobl ddigartre'n gorffod treulio mwy o amser mewn llety dros dro. Bydd llawer llai o ddewis gyda nhw am ba fath o gartrefi gân nhw. A bydd rhai'n methu cael cartrefi fforddiadwy – heb fod yn rhy ddrud – am weddill eu bywydau.

Rhenti – print mân, arian mawr

● Dydy addewidion am lefel rhenti ddim yn gweithio. Mae profiad pobl Lloegr yn dangos hyn yn glir. O'r 20 ardal gyda'r codiadau uchaf rhwng 1997 a 2004, roedd 15 wedi 'trosglwyddo' tai. ● Maen nhw'n addo cadw rhenti i lawr â rheolau newydd – ond beth am y 'taliadau gwasanaeth'? Does dim rheol am y rheiny – a bydd raid i chi dalu'r rheiny yn ogystal â'r rhenti. ● Os symudwch chi i mewn i dŷ ar ôl y trosglwyddo, fydd dim addewid am eich rhent fodd bynnag. Bydd pobl yn byw drws nesa i'w gilydd yn talu gwahanol renti.

Aelodau o blaid yr ymgyrch

Mae sawl Aelod yn San Steffan wedi cefnogi cynigion o blaid chwarae teg i dai cyngor. Mae 146 o Aelodau Seneddol wedi cefnogi'r cynnig diwedddara. Dyma'r Aelodau o Gymru sy wedi'i gefnogi.

Marton Caton AS Gŵyr (Llaf.)	Dai Havard AS Merthur Tudful a Rhymni (Llaf.)	Adam Price AS Dwyrain	Roger Williams AS Brycheiniog a Maesyfed
Paul Flynn AS Gorllewin	Eifyn Llwyd AS Casnewydd (Llaf.)	Betty Williams AS Dinefwr (P.C.)	Jenny Willot AS Canol Caerdydd (Dem.Rhydd.)
Hywel Francis AS Aberafon (Llaf.)	Lembit Ópik AS Conwy (P.C.)	Mark Williams AS Conwy (Llaf.)	
Nia Griffith AS Llanelli (Llaf.)		Ceredigion (Llaf.)	



"Roedd 90% o denantiaid Shir Gâr o blaid aros gyda'r Cyngor Sir fel landlord. Os caiff y tai cyngor eu trosglwyddo, fe allen ni gwplu lan gyda landlord preifat bant yn rhywle sy'n hidio dim am y tenantiaid."

Nia Griffith AS (Llaf.)



"Dydy'r Cyngorau ddim yn mynd i gael chwarae teg dan y polisi presennol. Ond ffeithiau yw ffeithiau, a dydyn ni ddim yn mynd i roi'r gorau i'n brwydr ni. Rhaid i'n Cyngor gael arian iawn i'w roi mewn i dai cyngor. A RHAID i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i Gordon Brown wrando."

Dai Havard AS (Llaf.)



"Mae tai cyngor yn un o rannau pwysicaf'r Wladwriaeth Les. Ar hyn o bryd, mae rhai hawliau sylfaenol gyda phobl sy'n byw menw tai cyngor. Rhaid i ni amddiffyn yr hawliau 'na. Gwrthodwch breifateiddio'n cartrefi – dyna neges Plaid Cymru i denantiaid."

Leanne Woods AS (Darpar Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, PC)



"Mae mwy a mwy o bobl yng Nghymru'n byw ar y stryd neu mewn lleoedd gwely a brewcwast. Mae hi'n argyfwng arnon ni, ac mae tai cyngor yn bwysicach nag erioed. Dydy preifateiddio ddim yn mynd i ddatrys y broblem."

Jill Evans ASE (P.C.)




"Os oes pleidlais yn dod ar drosglwyddo tai cyngor, dwedwch wrth BAWB am bleidleisio NA. Os oes digon o bobl yn gwrthod y polisi dwl 'ma, bydd mwy o gyfle i ni gael gwared ag e."

Frank Dobson AS (Llaf.)



"Mae'r holl bwyllgorau Seneddol 'ma wedi gwrthod y polisi, yn ogystal â'r Comisiwn Archwilio a'r Grŵp Amddiffyn Tai Cyngor. Fe ddylai'r Llywodraeth wrando arnyd nhw a newid eu polisi."

Paul Holmes, A.S. (Cadeirydd Aelodau Seneddol De. Rhydd.)



Mae Grŵp Tai Cyngor Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi llyfr bach am yr ateb i'r broblem. Hoffech chi gopi? Cysylltwch ag Austin Mitchell AS, Cadeirydd y Grŵp. Ffôn 0207 219 4559.



“Rwyf newydd ymddiswyddo o fwrdd y Cydfuddiannol Cymunedol yn Abertawe. Roeddwn i i fod yno i siarad dros y tenantiaid. Bues i'n ceisio ffindio allan beth ddigwyddodd i rai o'r asedau oedd i fod wedi'u trosglwyddo gyda'r tai. Ches i ddim atebion deche. Maen nhw heb ateb rhai cwestiynau eraill hefyd. Os yw tenant ar y Bwrdd yn methu cael atebion, ble mae hyn yn gadael y tenantiaid eraill?”

Terry Hennington, tenant, Abertawe



“Os yw cymuned i fod i barhau a byw, rhaid iddi gael cartrefi teilwng i'w phobl. Mae tai cyngor dan reolaeth ddiol a democrataidd. Mae preifateiddo tai'n tansellio democrataeth, yn rhoi llai o ddewis i'r tenantiaid, ac yn bygwth y gymuned. Does dim ots os yw'r preifateiddo er elw neu beidio. Does dim angen preifateiddo, ac mae UNSAIN yn sefyll yn gadarn yn erbyn y polisi. Rydyn ni'n cefnogi'r miloedd o denantiaid sydd am aros gyda'u cynghorau.”

Bill King, Cynullydd Rhanbarthol, UNSAIN Cymru Wales



“Mae prisoedd tai yn Abertawe wedi codi'n aruthrol dros y 5 mlynedd ddiwetha. Os yw'n galed amon ni'n dechrau prynu tŷ, bydd hi'n amhosib i'n plant ni. Fydd ddim digon o dai fforddiadwy ar gael i bobl gyffredin. Dwli yw cael gwared â'r tai cyngor ar adeg fel hyn. Ar ôl i Abertawe roi'r gorau i'w thai cyngor, fydd dim mynd yn ôl. Mae tenantiaid Abertawe'n ymladd i gael pleidlais NA gref. Ys ydych chi'n credu mewn tai cyngor, dewch i ymuno yn yr ymgyrch.”

Paul Lynch, tenant Amddiffyn Tai Cyngor Abertawe

“Dwy i'n erbyn preifateiddio'n tai cyngor ni, ac rwy'n gadarn o blaid buddsoddi uniongyrchol – rhoi arian yn syth mewn i'r tai cyngor. Cyflogau bach sy gyda llawer o bobl Torfaen. Dyna pam fod tai fforddiadwy ar rent mor bwysig ni. Rhaid i ni gadw'r tai cyngor sy gyda ni, a gwneud yn siŵr fod rhai newydd yn cael eu codi. Pan gafodd rhai o dai cyngor Casnewydd eu trosglwyddo, fe gododd y rhent yn syth. Ac maen nhw wedi gosod pob math o 'daliadau am wasanaeth' newydd ar ben hyn. Rhaid i ni ymladd i'r cam yn erbyn preifateiddio.”

Steve Liddle, tenant, Amddiffyn Tai Cyngor Torfaen

“Hawl y bobl i gael llais cyfartal pan fydd penderfyniad pwysig i'w wneud – dyna beth yw gwir ddemocrataeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fyddan nhw'n trafod beth sy'n mynd i ddigwydd nawr – fel gyda throsglwyddo tai o'r cyngor. Mae'r Cyngor wedi cael gafael ar werth ffortiwn o arian cyhoeddus i roi llwyth o bropaganda i'r tenantiaid. Does dim cyfle i'r ochr arall gael ei chlywed. Mae hyn yn anfoesol. Ac fe rydw i'n credu i fod yn erbyn y gyfraith hefyd.”

Y Cynghorydd Mike Davies, Cyngor Torfaen

“Mae tenantiaid yn Rhondda Cynon Taf yn teimlo'n eitha diogel gyda threfn bresennol y tai cyngor. Ond maen nhw'n pryderu'n fawr iawn am y syniad o gael landlordiaid newydd. Rydyn ni wedi addo ymladd bob cam i gadw'r tai dan reolaeth y Cyngor.”

Sharon Jones, Ysgrifennydd y Gangen, UNSAIN Rhondda Cynon Taf

“Mae trosglwyddo'r tai o'r Cyngor yn dangos gelyniaeth tuag at y sector cyhoeddus. Dyma'r Cyngor ail fwy yng Nghymru'n preifateiddio'i dai – mae'r peth yn warth. Maen nhw'n defnyddio blaclmêl er mwyn gwthio'r tenantiaid i dderbyn. Buddsoddi mewn tai cyngor ddylai'r Llywodraeth wneud.”

Y Cynghorydd Pauline Jarman, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru, Cyngor Rhondda Cynon Taf



Tenantiaid, undebwyr, a chynghorwyr o holl wledydd Prydain yn lobbio Aelodau Seneddol yn San Steffan ym mis Chwefror.

Ffordd arall, ffordd well

Mae'r arian ar gael!

RHAID I NI AMDDIFFYN TAI cyngor, a'u gwella hefyd. Raid ymladd dros ein plant a phobl y dyfodol. Bydd hawl iddyn nhw i gartrefi teilwng hefyd.

Mae'r arian ar gael i wella'n cartrefi ni. Rydyn ni denantiaid Cymru'n talu £450,000,000 o rent bob blwyddyn. Ac rydyn ni'n disgwyl i'r arian 'na fynd ar gynnal a chadw'n ta, eu rheoli, a'u gwella. Ond dim ond £250,000,000 sy'n mynd ar waith cynnal a chadw. Mae £100,000,000 yn mynd ar waith gwella sylweddol. Felly mae'r Llywodraeth yn dwyn £100,000,000 – bron chwarter o'n harian rhent ni – bob blwyddyn. Ac mae'r Trysorlys yn dwyn £1,500,000,000 o arian rhent tenantiaid tai cyngor Lloegr ar ben hynny!

Maen nhw'n ddigon eofn wedyn i

gynnig ein harian ein hun yn ôl i ni – OS byddwn ni'n derbyn preifateiddio'n cartrefi ni! Dyw'r peth DDIM yn iawn. Mae'r Trysorlys yn fodlon anghofio dyledion tai – ar gost miliynau – os derbyniwn ni drosglwyddo'n tai ni. Bydd y cymdeithasau tai'n cael cadw'r £100,000,000 wedyn – i fod i gael eu gwario ar ein tai. Ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn fodlon rhoi arian mawr i'r landlordiaid newydd i'w helpu nhw ar y dechrau hefyd.

Blaclmêl yw hyn, i'n gorfodi ni i dderbyn preifateiddio. Ac mae'r peth yn WARTH. Mynnwn gael chwarae teg i'r cynghorau. Mynnwn i'n harian ni fynd ar dai cyngor da a diogel i bobl. Mae angen tai fforddiadwy – heb fod yn rhy ddrud – dan drefn sy'n atebol i ni.

Tenantiaid Cymru'n gwrthod preifateiddio

MAE POBL CYMRU'N ERBYN trosglwyddo'u tai i'r drefn newydd. O'r 22 o gynghorau, dim ond Pen-y-bont o'r 22 sy wedi trosglwyddo. Yn Wrecsam, mae'r bobl wedi pleidleisio'n gadarn yn erbyn trosglwyddo.

Rhaid i'r 21 cyngor sy'n cadw tai gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Rhaid iddyn nhw ddangos eu cynlluniau am hyn i Lywodraeth y Cynulliad. Dim ond 6 sy wedi ystyried trosglwyddo'r tai – ac mae'r bobl yn gryf yn erbyn.

Ar ôl i bobl Wrecsam wrthod trosglwyddo, cyndyn iawn yw cynghorau Cymru i geisio gwrthio'r cynllun. Mae nifer o gynghorau eisoes wedi penderfynu cadw'u tai cyngor, er gwaetha pwysau Llywodraeth y Cynulliad. Dyma nhw:

Bro Morgannwg, Caerdydd, Ceredigion, Powys, Sir Benfro, Sir Ddinbych, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, ac Ynys Môn.

Gan Gyngor Caerdydd mae'r tai cyngor gwaetha o holl drefn Cymru.

Problem anferthol – ond dydy'r Cyngor ddim am gael gwared a'i dai. Mae Cyngor Caerdydd am gyda'r tai, a bwrw ymlaen a gwaith gwella. Maen nhw am gadw'r tai lle mae hyn yn bosib, a'u gwella at y safonau cenedlaethol gorau erbyn 2012. Maen nhw eisoes wedi cyrraedd eu targedau mewn rhai meysydd. Dyna gyfle i wella gyda gwaith arall – o'r cylchgrawn Inside Housing.

Yn ol Sue Finch, o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae tenantiaid tai cyngor Wrecsam yn gryfach yn erbyn preifateiddio nag adeg pleidlais y cyngor.

Mae sawl cyngor yn poeni bod eu tenantiaid yn mynd i wrthod trosglwyddo. Mae Sue'n dureud bod dim angen ail bleidlais yn Wrecsam. Mae barn y tenantiaid yn glir.

Mae llawer o gynghorwyr o'r un farn a'r tenantiaid. Yn ol Dr Bob Smith, o Brifysgol Caerdydd, mae mwy a mwy o wleidyddion lleol yn erbyn trosglwyddo tai cyngor. Maen nhw'n gadarn o blaid cadw'r gwasanaeth tai cyngor.

	Rhent	Rheoli, Cynnal a Chadw	Gwaith Trwsio Sylweddol	I'r Trysorlys
Conwy	£10.8m	£6.0m	£2.6m	£2.2m
Sir Fynwy	£11.0m	£5.7m	£2.5m	£2.8m
Casnewydd	£28.8m	£15.2m	£6.5m	£7.1m
Rhondda Cynon Taf	£29.9m	£17.6m	£7.3m	£5.0m
Abertawe	£39.6m	£22.4m	£9.1m	£8.1m
Torfaen	£24.4m	£13.3m	£5.8m	£5.3m
CYMRU GYFAN	£451.3m	£250.7m	£103.9m	£96.7m

(Ffigyrau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2006-07)

Amddiffyn Tai Cyngor Cymru

Preifateiddio Pen-y-bont: 'gwael', 'gwan', ac 'aneffeithiol'

MAE LANDLORD 'trosglwyddo' cynta Cymru yn drychineb. Dyna farn Swyddfa Archwilio Cymru am gwmni Cymoedd i'r Arfordir.

Adroddiad cyfrinachol oedd hwn, ond fe ddaeth i ddwylo'r Glamorgan Gazette. Mae'r adroddiad yn dweud bod y cwmni newydd ym Mhen-y-bont wedi methu cyrraedd 6 allan o 8 safon allweddol.

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi edrych ar Cymoedd i'r Arfordir ddwy flynedd ar ôl y trosglwyddo.

Dyna'u sylwadau:

Mae cyflwr y tai'n dirywio.

Dydy gwaith trwsio ddim yn cael ei wneud yn brydlon, ac mae'r safonau'n mynd yn waeth gydol yr amser.

Dydy Cymoedd i'r Arfordir ddim yn gofyn yn gyson am farn y tenantiaid, nac yn gwrandao arnyn nhw chwaith.

Dydy Cymoedd i'r Arfordir ddim yn atebol i'r tenantiaid am ansawdd y gwasanaeth.

Dydy nhw ddim yn ddigon

cyflym ac effeithlon wrth osod tai.

Dydy nhw ddim yn dewis yn deg wrth benderfynu pwy sy'n mynd i gael tŷ.

Roedd Bwrdd Cymoedd i'r Arfordir i fod i gwrdd â'r tenantiaid bob 6 mis, ond dydy hyn byth wedi digwydd.

Does dim chwarter digon o wybodaeth a chyngor ar gael i'r tenantiaid. Does dim Cynllun Iaith gyda Chymoedd i'r arfordir.

Mae'r cwmni'n cyhoeddi cylchlythyr bob 3 mis – ond heb roi llais i'r tenantiaid.

Does dim partneriaeth effeithiol rhwng y cwmni a'r Cyngor.

(Glamorgan Gazette, 25/05/06)

'Cydfuddiannol Cymunedol': enw crand ar breifateiddio

BETH YW CWMNI 'Cydfuddiannol Cymunedol'? Dim ond enw arall ar gymdeithas tai, neu 'landlord cymdeithasol cofrestrdig'.

Dan y drefn sy gyda ni nawr, mae cyfle gyda ni a'n cymdeithasau tenantiaid llobio'n cynghorwyr lleol. Os ydyn ni ddim yn hoffi'r ffordd maen nhw'n rhedeg ein cartrefi ni, bydd cyfle i'w taflu nhw allan adeg yr etholiad nesa. Ond bydd diwedd ar y ddemocratiaeth 'ma ar ôl trosglwyddo'r tai.

Bydd ambell i denant bach ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr, ond lleiafrif fyddan nhw. Cwmni masnachol fydd hwn, a bydd pawb yn gaeth i reolau masnachol.

Maen nhw'n brolio y bydd pob tenant yn cael cyfranddaliad yn y cwmni. Honni maen nhw fod hyn yn mynd i roi llais cryf i'r tenantiaid.

Fydd rhoi cyfranddaliadau i denantiaid yn gwneud yr un tamaid o wahaniaeth. Mewn cwmni masnachol cyffredin, y cyfranddaliwyr sy'n ethol y Bwrdd Cyfarwyddwyr I gyd. Mae cyfle gyda nhw i gael gwared â'r Cyfarwyddwyr os fydd y rheiny ddim yn plesio. Dim dyna'r drefn mewn Cydfuddiannol Cymunedol. Dim ond cynrychiolwyr tenantiaid fyddwn ni'n eu hethol. Fydd dim hawl gyda ni i newid prif reolau'r cwmni. Fydd dim digon o denantiaid ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr i basio penderfyniad.

Ond y peth pwysicaf am landlordiaid cymdeithasol cofrestrdig (gan gynnwys y Cydfuddiannol Cymunedol) yw'u bod nhw'n benthyca arian gan y banciau. Siarad gwag yw'r holl sôn am roi llais i'r bobl leol. Diwedd y gân yw'r geiniog – a bydd mwy na cheiniog a dimai gyda'r banciau.

Yn ôl ymchwil gan Brifysgol Brookes Rhydychen, does dim pŵer gyda chynrychiolwyr tenantiaid ar y Byrddau Cyfarwyddwyr. Maen nhw'n cael eu gwrthio allan o bethau gan y prif reolwyr – a'r rheiny sy'n rhedeg y sioe mewn gwirionedd.

Mae'r cymdeithasau tai'n ymddwyn yn fwy tebyg i gwmnïau mas-

nachol y dyddiau hyn. Eiddo sy'n cyfri, nid pobl. Dim cartrefi yw'r tai iddyn nhw, ond ffordd o wneud elw.

Mae grwpiau tai cydweithredol i'w cael, ond yn ôl Llywodraeth y Cynulliad mae'r cwmnïau Cydfuddiannol Masnachol yn wahanol mewn 3 ffordd bwysig:

● Mewn grwpiau cydweithredol go iawn, y tenantiaid sy'n rhedeg y gymdeithas neu'r mudiad. At ei gilydd, dydy'r gwroiau hyn ddim yn cynnwys mwy na 1,000 o gartrefi. Bydd y cwmnïau Cydfuddiannol Cymunedol yn llawer mwy.

● Y rheolwyr uchel sy'n gwneud y penderfyniadau pwysig i gyd mewn cwmni Cydfuddiannol Cymunedol. Er taw'r tenantiaid sydd i fod yn berchen ar y tai, does neb o bwys yn gwrandao ar eu llais nhw.

● Mewn grŵp cydweithredol, bydd pobl gyffredin yn dewis bod yn aelodau. Mae'r cyfan yn onest ac agored. Ond yn y Cydfuddiannol Cymunedol, mae polisi swyddogol yn cael ei wthio ar bobl gan y Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth yn dweud wrthyn ni fod rhaid i ni dderbyn y drefn newydd. Os gwrthodwn ni, fydd ein tai ni ddim yn cael eu trwsio. Blacmêl ydy peth fel hyn – yn gwbl wahanol i grwpiau tai gwirfoddol.

Dyna farn Llywodraeth y Cynulliad yn 2004 – beth sy wedi newid?

"Busnes ydyn ni. Rydyn ni'n disgwyl i bob adran o'n busnes ni wneud elw."

(John Belcher, prif weithredwr yr Anchor Trust, yn 2003 – £185,800,00 yn mynd drwy'r llyfrau bob blwyddyn!)

Safwn yn gadarn: mynnwn lais

Mae'r Cyngor yn dweud wrthyn ni'r tenantiaid eu bod nhw'n mynd i ennill y bleidlais doed a ddelo. Ond celwydd noeth yw hynny! Mae'r tenantiaid yn gallu ennill – ond rhaid i ni ymladd yn galed, fel y bobl yn Wrecsam, Caeredin, a Birmingham. Fe gafodd y Gweinidogion, yr Aelodau, a'r swyddogion polisi, dipyn o sioc. Bydd raid iddyn nhw ddechrau gwrandao aron ni o hyn allan. Os bydd tenantiaid Cymru gyfan yn gwrthod trosglwyddo tai, bydd raid i'r Llywodraeth ildio i synnwyr gyffredin. Buddsoddi uniongyrchol mewn tai cyngor nawr – heb ddim pwysau na blacmêl!

DADL DEG?

Pam fod y cynghorau am ein rhwystro ni rhag clywed y ddadl yn erbyn trosglwyddo? Mae rhyw gwmnïau newydd i fod i roi 'cyngor annibynnol' i ni – ond y Cyngor sy'n talu amdany'n nhw! Rydyn ni'n herio cynghorau Cymru i gynnal dadl deg a chytbwys. Rhaid i'r ddwy ochr gael cyfle teg i leisio barn. Rhaid i'r tenantiaid glywed yr holl feithiau a phob dadl.

Ymgyrch gref – sefwch gyda ni!

Mae'r cyngor yn gwario'n harian rhent ni ar eu propaganda nhw. Maen nhw'n ceisio esgus bod dim amdani ond 'trosglwyddo' tai cyngor. Dydy hyn DDIM yn iawn. Does dim arian cyhoeddus gydag Amddiffyn Tai Cyngor. Rydyn ni'n dibynnu ar roddion pobl gyffredin. Rydyn ni'n rhoi'r ffeithiau am ddyfodol ein cartrefi o flaen pobl. Dyma sut i'n helpu ni.

● Mynd â chopi o'r papur 'ma i bob tŷ cyngor yn eich ardal chi.
● Rhoi posteri ym mhob man

ar eich ystâd chi. Rhoi un yn ffenestr eich tŷ.

● Trefnu cyfarfod, a gwahodd siaradwr o Amddiffyn Tai Cyngor. Gwahodd rhywun o'r Cyngor i drafod y polisi o flaen pawb – dyma gyfle i'r holl denantiaid glywed dwy ochr y ddadl.

● Codi arian i dalu am yr ymgyrch. Mae pob ceiniog yn mynd i'n helpu ni.

● Ac yn bwysicach na dim ... siarad â'ch ffrindiau, eich teulu, a'ch cymdogion – a'u perswadio i bleidleisio NA.

BLE I GYSYLLTU Â NI Eich cyswllt lleol

CONWY

t/o Cangen Conwy UNSAIN, Tandderwen, 7 Heol Coed Pella, Bae Colwyn, LL29 7AT ffôn 01492 534682
ebost hilary.hughes@unisonconwy.co.uk

SIR FYNWY

Amddiffyn Tai Cyngor Sir Fynwy, 89 Woodland View, Wyesham, Trefynwy, NP25 3JW ffôn 01600 714849

RHONDDA CYNON TAF

t/o Cangen Rhondda Cynon Taf UNSAIN, Stryd Fawr, Graig, Pontypridd CF37 1JN ffôn 07799 132253
ebost rctunison@btconnect.com

ABERTAW

Amddiffyn Tai Cyngor Abertawe t/o Paul Lynch, 12 Tregarne Close, Treforys, Abertawe SA6 6PR
ffôn 01792 545 828 / 02932 938 428
ebost Paul_lynch@amserve.com


TORFAEN

Amddiffyn Tai Cyngor Torfen
ffôn 07747 328255
ebost wales@afed.cjb.net

Mae'r Undebau Llafur canlynol yn rhan o'r ymglyrch DCH:



Diolch yn fawr iawn am noddor papur newydd yma i



Cysylltwch ag:
Amddiffyn Tai Cyngor

ebost: info@defendcouncilhousing.org.uk
ffôn: 020 7987 9989

gwefan: www.defendcouncilhousing.org.uk
P.O. Box 33519, London E2 9WW, Lloegr

Mynnwn fuddsoddi uniongyrchol mewn tai cyngor – heb ddim pwysau na blacmêl